

Gwers 5: Cestyll

Nod y Wers: Disgrifio a dadansoddi beth oedd pwrpas cestyll yng Nghymru.

Tasg 1: Pwy ydy'r dynion isod? Beth yw eu swyddi (jobs)? Beth mae nhw'n gwneud? Eglurwch. Penderfynwch ar ba wybodaeth i osod yn y blychau:

**Boris Johnson, deintydd, The Avengers, Mark Drakeford, nyrs,
creu rheolau newydd, Prif Weinidog Cymru, athrawon, Brenin Lloegr,
Prif Weinidog Prydain, rheoli ac arwain y wlad, glanhau,**



Fel y dynion uchod, roedd angen arweinwyr (*leaders*) i reoli'r (*control*) wlad yn yr Oesoedd Canol. Un ffordd o ddangos pwy oedd yn rheoli oedd adeiladu cestyll a dyma wnaeth brenhinoedd (*kings*) Lloegr yng Nghymru am flynyddoedd rhwng 1066-1300. Ond roedd gan gestyll sawl pwrpas (*purpose*) arall hefyd.

Yn gyntaf, roeddynt yn gartrefi (*homes*) i arweinwyr a'u teuluoedd. Roedd yr arweinwyr Y Barwniaid oedd yn creu rheolau (fel cyfreithiau) i bobl ddilyn ac yn casglu trethi (*taxes*) i wneud arian. Roedd angen i'r Barwniaid bod yn ffyddlon i'r brenin, ond o fewn eu hardal, eu rheolau nhw, ac nid rheolau brenin Lloegr, oedd ar waith.

Tasg 2: Dychmygwch eich bod yn Farwn. Pa reolau y fuasech chi'n eu greu yn eich ardal i reoli'r bobl lleol? e.e. Mae angen i bawb bod yn eu tai erbyn 8 o'r gloch bob nos.

Mi fuaswn i'n.....

Yn ail, mi fuaswn i'n.....

Yn drydydd, mi fuaswn i'n.....

Roedd cestyll hefyd yn ardaloedd i bobl eraill byw a gwneud eu cartrefi e.e. milwyr cyffredin, crefftwyr, ffermwyr, siopwyr. Ond er mwyn byw yn yr ardal roedd rhaid iddynt ddilyn rheolau'r Barwniaid ac bod yn ffyddlon iddo. Nodwedd arbennig arall o'r cestyll hyn oedd y tir o'u cwmpas: gerddi, ffermydd, ac ardaloedd mawr i hela anifeiliaid - y cyfan yn dangos grym a chyfoeth y Barwniaid.

Yn dilyn ryfel llwyddiannus yn erbyn y Cymry yn 1277-78, dechreuodd Edward I adeiladu nifer o gestyll yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Adeiladwyd cestyll yn Aberystwyth, Fflint a Rhuddlan. Yn dilyn marwolaeth Llywelyn ein Lliw Olaf a chwymp Gwynedd yn 1282-83, penderfynodd Edward I adeiladau mwy o gestyll i geisio rheoli'r Cymry yn Harlech, Caernarfon, Conwy ac Biwmares. Prif bwrpas Edward oedd sicrhau na fyddai'r Cymry byth yn codi mewn gwrthryfel. Yn ogystal a'r castyll, adeiladwyd trefi wrth eu hymyl gyda waliau amddiffynnol o'u cwmpas i atal unrhyw ymosodiadau o thu allan. Saeson oedd yn byw yn yr ardaloedd yma ac yn fan hyn roeddent yn byw ac yn gweithio.



Trafod: Wrth edrych ar y lluniau, beth sy'n nodweddiadol o leoliad y ddau gastell? Pam?

Trefi, Conwy, longau, y mor, porthladd (port), waliau, adnoddau (goods)

I ddechrau gyda, cafodd y cestyll eu adeiladu wrth yml fel castell..... Roedd gan y cestyll amddiffynol.

Roedd yna wrth yml y castell er mwyn i..... mynd a dod ag i'r safle.

Tasg 3: Darllennwch y wybodaeth uchod. Yn eich barn chi, beth oedd prif bwrpas cestyll yng Nghymru? Pam? Nodwch mwy na un pwrpas.

Yn fy marn i, prif pwrpas cestyll oedd.....

Ail bwrpas oedd.....

Yn drydydd.....

| | | | | |
|----------------------|--------------|-------------------|----------|------------------|
| <u>Geirfa</u> | Rheoli | <i>Control</i> | Awdurdod | <i>Authority</i> |
| | Llwyddiannus | <i>Successful</i> | Ffyddlon | <i>Faithful</i> |